



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Polisi ar ddyfarnu grantiau

Dogfen gyngor arferion da

Cyhoeddir yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Dyddiad: Medi 2020

Mae dogfennau cyngor arferion da'r Comisiynydd yn cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gydymffurfio â dyletswyddau iaith statudol, a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r dogfennau cyngor yn cyfeirio at ofynion dyletswyddau iaith statudol penodol, ond noder:

- Gall sefydliadau nad ydynt dan ddyletswydd i weithredu'r dyletswyddau penodol y cyfeirir atynt fynd ati i gymhwyso'r egwyddorion a'r enghreifftiau i'w sefyllfa hwy
- Nid yw'r dogfennau cyngor yn rhwymo sefydliadau'n gyfreithiol. Rhaid i sefydliadau ddibynnu ar eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth ddehongli a gweithredu dyletswyddau iaith
- Nid yw'r dogfennau cyngor yn godau ymarfer safonau dan adran 68 Mesur y Gymraeg, felly nid yw'n ofynnol cyfeirio at y dogfennau cyngor wrth ystyried dehongliad safonau'r Gymraeg. Mae [codau ymarfer y Comisiynydd](#) ar gyfer rheoliadau safonau'r Gymraeg i'w gweld ar y wefan (gweler adran 1 y codau ymarfer ynghylch statws cyfreithiol y codau).

Cynnwys

1	Gofynion y safonau	2
2	Pryd fydd y polisi dyfarnu grantiau'n cael ei weithredu	6
3	Newid prosesau a deunyddiau	7
4	Adnabod effeithiau penderfyniadau dyfarnu grant	9
5	Gwneud a gweithredu penderfyniadau grant	12

Rhestr wirio

Mae'r syniadau a'r arferion yn y cyngor yn cael eu crynhoi yn y rhestr wirio hon. Cofiwch fod rhai o'r pwyntiau isod yn ofynion yn y safonau, ac eraill yn arferion da.

Cam	Ar waith?
Llunio polisi ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad:	
<ul style="list-style-type: none">o adnabod effeithiau positif ac andwyol o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	
<ul style="list-style-type: none">o ystyried sut i wneud a gweithredu'r penderfyniad mewn ffordd sy'n cynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg	
<ul style="list-style-type: none">o ystyried sut i wneud a gweithredu'r penderfyniad mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg	
<ul style="list-style-type: none">o ystyried pa wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn asesu'r effaith ar y Gymraeg.	
Sicrhau bod y polisi'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, er enghraifft:	
<ul style="list-style-type: none">o rhestr o grantiau bydd y polisi'n berthnasol iddynt	
<ul style="list-style-type: none">o beth fydd trefniadau'r sefydliad ar gyfer asesu'r effeithiau yn y meysydd uchod	
<ul style="list-style-type: none">o pa ffactorau fydd yn cael eu hystyried, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac effeithiau positif ac andwyol.	
Sicrhau bod deunyddiau a threfniadau'r sefydliad, a chyfrifoldebau staff, yn cael eu haddasu i hwyluso gweithredu'r polisi, er enghraifft:	
<ul style="list-style-type: none">o deunyddiau a threfniadau hyrwyddo a hysbysebu grantiau	
<ul style="list-style-type: none">o deunyddiau a threfniadau derbyn ceisiadau (e.e. ffurflenni)	
<ul style="list-style-type: none">o trefniadau a deunyddiau asesu ceisiadau, a'r staff sy'n gyfrifol am wneud hynny	
<ul style="list-style-type: none">o trefniadau a deunyddiau unrhyw gyfweiliadau	
<ul style="list-style-type: none">o system sgorio neu feini prawf dyfarnu grantiau	
<ul style="list-style-type: none">o telerau ac amodau dyfarnu grantiau	
<ul style="list-style-type: none">o trefniadau a deunyddiau monitro ac adrodd.	

1 Gofynion y safonau

Beth yw pwrpas y safonau ynghylch polisiau dyfarnu grantiau?

- 1.1 Mae safonau'r Gymraeg yn ymwneud â mwy na dim ond cyflenwi gwasanaethau. Mae sefydliadau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau amrywiol sydd â'r potensial i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar y Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – mae gan nifer o benderfyniadau sefydliadau draweffaith cymdeithasol ac economaidd sydd yn ei dro'n dylanwadu ar y Gymraeg.
- 1.2 Felly ochr yn ochr â gofynion ynghylch hawliau penodol i ddefnyddwyr a staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau, mae gofynion ynghylch ystyried effaith penderfyniadau ar y Gymraeg.

Safonau ynghylch penderfyniadau polisi

- 1.3 Mae yna gyfres o safonau sy'n ymwneud ag ystyried y Gymraeg mewn penderfyniadau polisi'n gyffredinol – unrhyw benderfyniad polisi y mae sefydliad yn ei wneud, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch cynnwys deddfwriaeth, arfer pwerau statudol, cynnwys datganiadau polisi, strategaethau neu gynlluniau strategol, a strwythurau mewnol. Mae gan y Comisiynydd gyngor arferion da ynghylch y safonau hynny yn ogystal. Mae'r safonau ynghylch penderfyniadau polisi'n gosod camau penodol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn adnabod yr effeithiau ar y Gymraeg, ac yna ystyried sut y gellir lleihau effeithiau andwyol a chynyddu effeithiau positif. Mae gofynion ynghylch ymgynghori ar benderfyniadau polisi hefyd.

Safon ynghylch polisi dyfarnu grantiau

- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn delio â safon sydd â'r amcan o sicrhau bod penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau'n adnabod yr effaith ar y Gymraeg, ac yn ystyried sut y gellir lleihau effeithiau andwyol a chynyddu effeithiau positif. Yn wahanol i'r safonau ynghylch penderfyniadau polisi, mae y gofyniad gyda'r safon hon yw bod sefydliadau'n llunio a chyhoeddi polisi sy'n nodi sut y byddant yn ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau.
- 1.5 Mae hyn yn golygu bod modd i sefydliadau fanylu ynghylch y grantiau y maent yn gwneud penderfyniad arnynt, a pha broses fydd yn cael ei dilyn, gan fod yn benodol ynghylch y camau fydd yn cael eu cymryd yn sefyllfa benodol y sefydliad gan ystyried y grantiau y mae'n eu dyfarnu.
- 1.6 Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â gofynion y safon a materion y Gymraeg. Mater i'r sefydliad yw ei drefniadau cyffredinol ar gyfer dyfarnu grantiau.

Safonau ynghylch proses grantiau

- 1.7 Mae safonau eraill sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaeth o ran y broses o weinyddu ceisiadau am grant. Nid yw'r cyngor hwn yn delio â'r safonau hynny, ond gall eich polisi dyfarnu grantiau gyfeirio at y safonau hynny, a sut y byddwch yn galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth wneud ceisiadau grant.

Beth yn union yw gofynion y safonau o ran polisi dyfarnu grantiau?

- 1.8 Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol cael polisi sy'n gosod allan sut y byddwch yn ystyried materion penodol o ran yr effeithiau ar y Gymraeg wrth i chi wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant.
- 1.9 Mae geiriad y safon yn rheoliadau safonau'r Gymraeg rhifau 1, 2 a 5 fel a ganlyn:

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant—

(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar—

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau'r Gymraeg (rheoliadau rhif 1, 2, 5)

- 1.10 Yn rheoliadau rhif 6 (sy'n berthnasol i golegau a phrifysgolion), mae geiriad y safon yr un peth heblaw ei bod yn cyfeirio at 'ddyfarnu grantiau **neu ddarparu cymorth ariannol**'.
- 1.11 Nid yw'r safon wedi ei chynnwys yn rheoliadau rhif 4 (tribiwnlysoedd Cymru) na rhif 7 (sefydliadau iechyd).

Llunio a chyhoeddi'r ddogfen polisi grantiau

- 1.12 Gellir cydymffurfio â'r safon drwy:
- o lunio dogfen benodol ynghylch ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau
 - o cynnwys gwybodaeth sy'n ateb gofynion y safon mewn dogfen am drefniadau cydymffurfio'r sefydliad yn gyffredinol, **neu**
 - o cynnwys y wybodaeth mewn dogfen sy'n sôn am drefniadau eraill y sefydliad o ran dyfarnu grantiau.
- 1.13 Mae'r safon yn dweud bod rhaid i'r ddogfen gael 'ei chyhoeddi'. Er nad yw'r safon yn dweud hynny'n benodol, mae'n debyg mai cyhoeddi'r ddogfen ar eu gwefannau fydd dull y rhan fwyaf o sefydliadau o wneud hyn. Gallwch hefyd sicrhau bod copiâu caled ar gael yn eich swyddfeydd ar gais.
- 1.14 Mae'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi'r ddogfen yn weithredol ers y diwrnod gosod sydd wedi ei nodi yn eich hysbysiad cydymffurfio.

Rhoi'r polisi ar waith

- 1.15 Mae geiriad y safon yn ei gwneud yn glir fod disgwyl i'r polisi rwyho'r sefydliad, a newid sut y mae'r sefydliad yn gweithredu – mae bwriad i'r polisi ei 'gwneud yn **ofynnol**' cymryd camau penodol a nodir yn y safon.
- 1.16 Er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd, gallech ystyried:
- o mabwysiadu'r polisi'n ffurfiol, er enghraifft drwy benderfyniad gan y cabinet neu fwrdd rheoli
 - o newid gweithdrefnau a dogfennau eraill y sefydliad
 - o sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â phenderfyniadau dyfarnu grantiau yn gwybod beth sy'n ddisgwylidig, er enghraifft drwy hyfforddiant a briffio.
- 1.17 Bydd o gymorth i'r cyfrifoldebau o ran gweithredu'r polisi fod yn glir, gyda:
- o y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn gweithredu'n unol â'r prosesau mae'r polisi'n eu gosod allan
 - o trefniadau ar gyfer cael rhywun â'r arbenigedd a phrofiad perthnasol o ran y Gymraeg yn rhan o'r broses – er enghraifft swyddog iaith y sefydliad, neu dîm sy'n arbenigo yn y defnydd o'r Gymraeg
 - o trefniadau atebolrwydd ar gyfer gwirio bod penderfyniadau'n ystyried y Gymraeg yn effeithiol.

Beth all fynd o'i le?

- 1.18 Wrth fonitro darpariaeth sefydliadau, ac wrth dderbyn cwynion a chynnal ymchwiliadau, rydym yn dysgu am sut mae sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld rhai diffygion yn y modd y mae sefydliadau'n gweithredu'r safon hon. Mae hyn yn cynnwys:
- sefydliadau heb lunio a chyhoeddi polisi er eu bod dan ddyletswydd i wneud hynny
 - sefydliad wedi datblygu polisi, ond y polisi ddim yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ofynnol yn y safon
 - sefydliad wedi datblygu polisi ond canllawiau neu weithdrefnau cysylltiedig ddim yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau perthnasol
 - sefydliad ddim yn ystyried rhai trosglwyddiadau o arian yn grant at ddibenion y safonau – hynny yw, yn dehongli'r safon yn rhy gyfyng.

2 Pryd fydd y polisi dyfarnu grantiau'n cael ei weithredu

Rhestr o grantiau perthnasol

- 2.1 Gall y polisi nodi dan ba amgylchiadau y byddwch yn gweithredu'n unol â'r polisi. Fel arfer, bydd hyn ar ffurf rhestr o'r grantiau rydych yn eu dyfarnu.
- 2.2 Mae'r safon yn berthnasol i bob un penderfyniad rydych yn ei wneud o ran dyfarnu grantiau. Mae hyn yn wir am grantiau rydych yn penderfynu arnynt ond sy'n gyfrifoldeb (neu'n cael eu gweinyddu gan) sefydliad arall. Gall y polisi gynnwys y grantiau hyn a nodi, os yn berthnasol, pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd ar eu cyfer, os yw'n wahanol.

Diffiniad ac enghreifftiau o grantiau

- 2.3 Fel arfer, mae grant yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson, nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd. Mae'r term yn cynnwys unrhyw gymorth ariannol y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Gan amlaf, dim ond rhan o gyfanswm costau y mae grant yn talu amdano. Caiff grantiau fel arfer eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol. Gall y term gynnwys cymorth ariannol neu fudd-dal ond nid yw'n cynnwys swm o arian sy'n cael ei roi i berson drwy broses gaffael, er enghraifft gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu.
- 2.4 Cafwyd enghreifftiau o sefydliadau'n dehongli'r safon yn rhy gyfyng – er enghraifft, dim ond yn ystyried pethau maent hwy yn eu galw'n 'grant', er bod y diffiniad o grant yn cynnwys mathau eraill o drosglwyddiadau ariannol. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y diffiniad uchod ym mhob achos.
- 2.5 Nid yw maint y swm o arian yn berthnasol – mae'r safon yn berthnasol i grantiau bach a mawr.
- 2.6 Mae enghreifftiau o grantiau'n cynnwys cymorth ariannol i:
 - drefnu digwyddiad bach neu fawr, er enghraifft gŵyl, cystadleuaeth, cwrs neu gynhadledd
 - rhedeg prosiect
 - cynhyrchu neu gyhoeddi rhywbeth, er enghraifft record, llyfr, taflen neu waith celf, arwyddion
 - adeiladu, addasu, rhentu neu brynu eiddo neu adnodd arall
 - cyflogi staff
 - cynnig gwasanaeth
 - cyfrannu at gostau byw person penodol, er enghraifft grant cynhaliaeth neu ysgoloriaeth i fyfyrwr
 - rhedeg sefydliad, busnes neu fudiad am gyfnod penodol o amser.

Enghraifft

[Mae polisi Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yma.](#)

3 Newid prosesau a deunyddiau

- 3.1 Efallai y bydd angen newid rhai prosesau neu ddeunyddiau er mwyn cyflawni'r hyn y mae'r polisi'n ymrwymo i'w wneud. Gall y polisi nodi beth fydd yn digwydd er mwyn sicrhau hynny.
- 3.2 Yn ddelfrydol, byddai'r polisi, y prosesau a'r deunyddiau cysylltiedig yn golygu bod unrhyw un sy'n eu dilyn yn debygol o ddod i benderfyniad cyson â'r hyn y byddai cydweithiwr yn debyg o'i gyrraedd.

Cyfrifoldebau ac amserlen

- 3.3 Mae'n allweddol fod pwy bynnag sy'n ystyried yr effaith ar y Gymraeg o fewn y penderfyniad yn meddu ar y wybodaeth a'r arbenigedd i wneud hynny'n effeithiol. Gellir cyflawni hyn naill ai drwy uwchsgilio a hyfforddi'r staff fyddai'n gwneud y gwaith beth bynnag, neu drwy dynnu arbenigwr (e.e. swyddog iaith y sefydliad) i mewn.
- 3.4 Unwaith eto, mater i chi yw pryd y caiff y Gymraeg ei hystyried. Fodd bynnag, fel mae'r broses enghreifftiol isod yn dangos, gall sawl cam drwy gydol y broses hwyluso rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg. Yn ogystal, byddem yn awyddus i weld yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn da bryd i gael effaith wirioneddol ar y penderfyniad a sut y caiff ei weithredu.

Proses a deunyddiau enghreifftiol

- 3.5 Isod mae enghraifft o broses ar gyfer ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddyfarnu grant, sy'n cyfeirio at ddeunyddiau penodol y gallai fod angen eu darparu neu eu newid.
- 3.6 Mae adrannau dilynol y cyngor hwn yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut i fynd ati i weithredu ar rai o'r pwyntiau isod.

Proses enghreifftiol dyfarnu grant – sut gellir mewndoli ystyriaethau'r Gymraeg

Hysbysebu'r grant

Deunyddiau gwybodaeth ynghylch y grant yn nodi bod y sefydliad yn mynd i fod yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ddyfarnu'r grant ac yn ceisio cynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol.

Derbyn ceisiadau am y grant

Ffurflen gais am y grant yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- o pa effeithiau fydd y gweithgaredd yn ei gael ar y Gymraeg, ac a yw'r rheiny'n bositif ynteu'n andwyol
- o pa gamau gaiff eu cymryd i gynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol.

Asesu ceisiadau am y grant

Mae'n debyg y bydd gennych **dempledi neu ffurflenni mewndoli** ar gyfer ystyried ceisiadau grant. Gallwch ychwanegu cwestiynau am y Gymraeg i'r prif ffurflenni, neu gael ffurflen ar wahân ar gyfer ystyried y Gymraeg. Gall ffurflen y sefydliad ar gyfer ystyried ceisiadau grant gynnwys lle i nodi:

- o beth fydd effeithiau dyfarnu'r grant ar y Gymraeg, ac a ydynt yn bositif ynteu'n andwyol
- o sut y gellir gwneud neu weithredu'r penderfyniad er mwyn cynyddu effeithiau positif a lleihau effeithiau andwyol
- o a oes angen gwybodaeth ychwanegol er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Cysylltu ag ymgeiswyr i ofyn am wybodaeth ychwanegol os ydych yn adnabod yr angen i wneud hynny.

Gall unrhyw **gyfweliadau** yn cynnwys cwestiynau ynghylch:

- o pa effeithiau fydd y gweithgaredd yn ei gael ar y Gymraeg, ac a yw'r rheiny'n bositif ynteu'n andwyol
- o pa gamau fydd yr ymgeisydd yn eu cymryd i gynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol.

Dyfarnu'r grant

Ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad terfynol, e.e. fel un o'r **meini prawf** ar gyfer y grant, neu faes mewn **system sgorio**

Deunyddiau ar gyfer **cofnodi'r penderfyniad** yn nodi:

- o pa ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg
- o sut mae hyn wedi effeithio ar y penderfyniad.

Telerau ac amodau ar gyfer y grant yn nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran y Gymraeg

Monitro defnydd y grant

Unrhyw ofnion i **adrodd** ar y defnydd o'r grant yn cynnwys cwestiynau / cais am ddata ynghylch:

- o pa gamau a gymerodd y derbynnydd i gynyddu effeithiau positif a lleihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg
- o pa effeithiau positif ac andwyol a gafodd y grant ar y Gymraeg.

4 Adnabod effeithiau penderfyniadau dyfarnu grant

- 4.1 Gall y polisi nodi sut y byddwch yn mynd ati i adnabod effeithiau posib penderfyniadau grant ar y Gymraeg.
- 4.2 Efallai y byddwch am gael proses gyson ar gyfer mynd ati i adnabod effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg. Un dull o wneud hyn yw cael templed neu ffurflen ar gyfer cofnodi'r effeithiau, naill ai fel ffurflen ar wahân ar gyfer yr effeithiau ar y Gymraeg, neu wedi ei gynnwys fel rhan o unrhyw ffurflen sydd gennych yn barod ar gyfer dyfarnu ar y grant.
- 4.3 Mae'r templed yn atodiad 2 yn cynnig dull o gofnodi hyn.

Sut gall penderfyniadau grant gael effaith ar y Gymraeg

- 4.4 Mae angen adnabod dau fath o effeithiau ar y Gymraeg, sef effeithiau ar ddwy brif amcan y safonau:
 - sicrhau cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg
 - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.5 Mae ystyr ymarferol 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn amrywio o sefyllfa i sefyllfa. Ond yn gyffredinol, mae'n golygu peidio â rhoi neb dan anfantais os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg, safonol a hygyrch â'r Saesneg bob amser.
- 4.6 Cynhwysir effeithiau anuniongyrchol yn ogystal â rhai uniongyrchol.
- 4.7 Ar ôl adnabod yr effeithiau posib, bydd angen adnabod a ydynt yn positif ynteu'n andwyol:
 - **effeithiau positif** yw rhai sy'n golygu bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn fwy amlwg, neu nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda deilliannau sydd o leiaf cystal
 - **effeithiau andwyol** yw rhai sy'n golygu bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn llai amlwg, neu fod pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn wynebu mwy o rwystrau neu ddeilliannau llai ffafriol na phobl sy'n defnyddio'r Saesneg.
- 4.8 Dyma rai cwestiynau y gallwch eu gofyn er mwyn adnabod effeithiau posib penderfyniadau dyfarnu grant ar y Gymraeg.

Ffactorau i'w hystyried wrth adnabod effeithiau

Effeithiau uniongyrchol

- A fydd modd defnyddio'r Gymraeg mewn elfennau cyhoeddus o'r gweithgaredd, ac wrth gyfathrebu â'r trefnwyr?
- A fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth hybu a hysbysebu'r gweithgaredd?
- A fydd deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil y gweithgaredd ar gael yn Gymraeg?
- A fydd y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg â'r Saesneg o ran deunyddiau, arwyddion, logos, cyhoeddiadau sain ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg?

Effeithiau anuniongyrchol

- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar gynladwyedd cymunedau lle mae'n bwysig gweld twf neu gysondeb o ran nifer siaradwyr a defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft yn sgil effaith ar yr economi, cynllunio, addysg neu gyfleoedd cymdeithasol?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar y nifer o blant sy'n derbyn addysg Gymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at greu cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi ac ysgogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol neu yn y teulu?

Gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniad

- 4.9 Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.
- 4.10 Gallwch ofyn i ymgeiswyr am y wybodaeth hon ar unrhyw bwynt yn y broses o ystyried y penderfyniad. Er enghraifft, gallwch:
- ofyn cwestiynau safonol ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o'r ffurflen gais
 - anfon cais am wybodaeth ychwanegol at ymgeiswyr yn dilyn derbyn ceisiadau
 - gofyn cwestiynau am yr effeithiau ar y Gymraeg mewn unrhyw gyfweiliadau rydych yn eu cynnal.
- 4.11 Isod mae enghreifftiau o'r cwestiynau y gallwch eu gofyn i ymgeiswyr am grantiau.

Gwybodaeth i ofyn amdani i gefnogi'r penderfyniad

- Ydych chi wedi ystyried beth fydd effeithiau'r gweithgaredd ar y Gymraeg? Beth fydd yr effeithiau positif ac andwyol?
- Sut fyddwch chi'n mynd ati i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau andwyol?
- Oes gennych chi ddigon o staff neu wirfoddolwyr i alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?
- Ydych chi wedi trefnu bod unrhyw ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg?
- Ydych chi wedi cynnwys unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn eich cyllidebau?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau ansawdd eich darpariaeth Gymraeg?
- Pa brofiad blaenorol sydd gennych o gyflawni gweithgaredd sy'n cael effeithiau positif, a ddim yn cael effeithiau andwyol, ar y Gymraeg?
- Oes gennych chi unrhyw ddata sy'n dangos sut mae'ch gweithgareddau blaenorol wedi effeithio ar y Gymraeg?

5 Gwneud a gweithredu penderfyniadau grant

- 5.1 Gall y polisi esbonio sut y byddwch yn ystyried sut i wneud neu weithredu'r penderfyniad er mwyn cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau andwyol.
- 5.2 Mae'r cyfeiriad at 'wneud neu weithredu' yn awgrymu bod dau brif ddull o gyflawni'r nod (gellir gwneud y ddau – nid yw'n gorfod bod yn un neu'r llall):
 - **gwneud y penderfyniad** – dyfarnu grantiau i geisiadau sy'n ymddangos yn fwy tebygol o gynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau andwyol
 - **gweithredu'r penderfyniad** – cymryd camau i sicrhau bod derbynwyr grantiau'n gweithredu mewn ffyrdd penodol er mwyn cynyddu'r effeithiau positif a lleihau'r effeithiau andwyol.

Gwneud y penderfyniad

- 5.3 Does dim disgwyl mai'r effeithiau ar y Gymraeg fydd y prif, neu'r unig, ffactor a ystyrir wrth benderfynu pwy fydd yn derbyn pob grant. Mae'n debyg y bydd gennych nifer o feini prawf y byddwch yn mesur ceisiadau yn eu herbyn, a'r rheiny'n ymwneud â materion fel i ba raddau mae'r cais yn cyd-fynd amcanion y grant, ac i ba raddau mae'r cais yn rhoi sicrwydd y bydd yr arian yn cael ei drin yn briodol.
- 5.4 Gallwch ychwanegu'r effeithiau ar y Gymraeg fel un o'r meini prawf rydych yn eu defnyddio i benderfynu ar ddyfarnu'r grant. Os ydych yn defnyddio system sgorio ar gyfer penderfynu pa geisiadau i roi grant iddynt, gallwch ychwanegu'r effeithiau ar y Gymraeg fel un maes yn y system sgorio honno, gan roi sgôr i geisiadau ar sail eich ystyriaeth o'u heffeithiau ar y Gymraeg. Mater i chi yw penderfynu pa mor drwm i bwysoli'r effeithiau ar y Gymraeg mewn system o'r fath.
- 5.5 Mae'n bwysig eich bod yn cadw cofnod priodol o sut mae ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wedi dylanwadu ar y penderfyniad terfynol o ran dyfarnu'r grant.
- 5.6 Mewn rhai achosion, bydd grant yn bodoli – yn rhannol neu'n llwyr – er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg. Efallai y byddwch o'r farn fod y meini prawf sydd gennych eisoes yn ddigonol ar gyfer cyflawni amcan y polisi dyfarnu grantiau. Os felly, gallwch nodi hynny yn y polisi dyfarnu grantiau.

Gweithredu'r penderfyniad

- 5.7 Gallwch hefyd wneud dyfarnu'r grant yn amodol ar gymryd camau penodol i sicrhau cynyddu'r effeithiau positif ar y Gymraeg, a lleihau'r effeithiau andwyol. Byddai angen sicrhau bod yr amodau hyn, a chanlyniadau methu â chadw atynt, yn hollol glir i dderbynwyr y grant. Dull posib o wneud hyn yw rhestru'r gofynion mewn telerau ac amodau, neu lythyr dyfarnu, ar gyfer y grant.
- 5.8 Dyma rai enghreifftiau o amodau y gellid eu gosod ar dderbynwyr grant, yn dibynnu ar sefyllfa'r grant unigol. Efallai y byddwch am ddatblygu set o amodau safonol i'w gosod ar yr holl rai sy'n derbyn grantiau gennych.
- 5.9 Fel y nodir isod, un dull effeithiol o sicrhau bod busnesau neu elusennau yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yw ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu cynllun hybu'r Gymraeg. Mae'r system yn creu cynllun o lefel darpariaeth Gymraeg ar sail holiadur, ac yn rhoi cyfle i fusnesau ac elusennau osod targedau, gyda chefnogaeth swyddogion Hybu a Hwyluso'r Comisiynydd, i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

Amodau safonol y gallech eu gosod ar gyfer pob grant

- o Cynnig gwasanaethau penodol yn Gymraeg, e.e. croesawu pobl, galluogi defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn, cyhoeddiadau sain, gohebu yn Gymraeg, cynnig cwrs yn Gymraeg
- o Cyhoeddi deunyddiau yn Gymraeg, e.e. gwefan, dogfennau, arwyddion, neu gynnyrch creadigol y prosiect
- o Targedu siaradwyr Cymraeg wrth hybu a hysbysebu gweithgaredd
- o Sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn lleoliadau daearyddol sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg
- o Datblygu a chadw at [gynllun hybu'r Gymraeg](#) [busnesau ac elusennau]
- o Cydymffurfio â safonau neu gynlluniau iaith Gymraeg [sefydliadau sydd dan ddyletswydd perthnasol]
- o Sicrhau bod capasiti adnoddau dynol neu gyllideb addas ar gael i alluogi darpariaeth Gymraeg
- o Darparu data neu dystiolaeth benodol ynghylch effeithiau'r grant ar y Gymraeg (gweler isod)

Adrodd ar effeithiau

- 5.10 Gallwch ofyn i dderbynwyr grant adrodd ar sut y maent wedi defnyddio'r grant neu sut maent wedi cadw at delerau ac amodau'r grant. Er enghraifft, mae gan rai sefydliadau holiaduron maent yn eu dyrannu i dderbynwyr grant sy'n ei gwneud yn ofynnol adrodd yn ôl ar y defnydd o'r arian. Gallwch ofyn am wybodaeth ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o hyn. Dyma enghreifftiau o ddata neu dystiolaeth y gellid gofyn amdani.

Data y gallech ofyn amdano wrth fonitro grant

- Nifer y deunyddiau a gynhyrchwyd yn Gymraeg / copïau o'r deunyddiau
- Nifer y staff neu wirfoddolwyr a allai gynnig gwasanaeth Cymraeg
- Nifer y siaradwyr Cymraeg wnaeth gymryd rhan mewn gweithgaredd
- Effaith economaidd y gweithgaredd mewn ardal benodol
- Nifer swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r grant
- Ardaloedd lle cynhaliwyd gweithgareddau
- Adborth gan ddefnyddwyr ynghylch defnyddio'r Gymraeg

Atodiad 1: safonau perthnasol

Rhif y safon (rheoliadau)	Geiriad y safon
94 (1); 90 (2); 91 (5)	<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant—</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
100 (6)	<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddyfarnu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddyfarnu cymorth ariannol—</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p>

	<p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
--	--

Atodiad 2: templed ar gyfer ystyried effeithiau

1	Enw'r grant		
2	Enw'r ymgeisydd		
Rhan 1: adnabod effeithiau ar y Gymraeg			
		Effeithiau positif	Effeithiau andwyol
3	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?		
4	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?		
Rhan 2: adnabod gwybodaeth ychwanegol			
5	A oes angen gwybodaeth ychwanegol i helpu gyda'r penderfyniad?		
Rhan 3: gwneud a gweithredu'r penderfyniad			
		Gwneud (e.e. rhoi grant ai peidio / swm i'w roi)	Gweithredu (e.e. gosod amodau)
6	Sut gellid addasu'r penderfyniad i gynyddu effeithiau positif ar y Gymraeg?		
7	Sut gellid addasu'r penderfyniad i leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?		



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

[@ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)

comisiynyddygybraeg.cymru